

# Cwricwlwm i Gymru: Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad Crefydd, Gwerthoedd a Moesau

Hydref 2020

## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestrdedig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bryste, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: [wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)

Gwefan: [www.wavehill.com](http://www.wavehill.com)

Twitter: @wavehilltweets

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey a Sarah Usher

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn at Llorenc O'Prey ([llorenc.oprey@wavehill.com](mailto:llorenc.oprey@wavehill.com))

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
1 Cyflwyniad.....	5
2 Cwmpas CGM.....	10
3 Canllawiau mewn Perthynas â Meysydd Llafur Cytunedig.....	13
4 Ysgolion sydd heb Gymeriad Crefyddol .....	17
5 Rhieni/Gofalwyr a CGM mewn Ysgolion heb Gymeriad Crefyddol .....	20
6 Ysgolion Gwirfoddol a Reolir sydd â Chymeriad Crefyddol .....	23
7 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir sydd â Chymeriad Crefyddol .....	26
8 Goblygiadau ar gyfer y Gymraeg .....	30
9 Casgliadau .....	32
Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad .....	33

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion sy'n rhoi adborth ar y cynigion deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) sydd wedi eu cynnwys yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

## Cefndir

Fel rhan o'r diwygiadau ehangach sydd wedi eu cynnwys yn y Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â CGM. Mae Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar gyfraith achosion gyfredol, yn bwriadu i addysgu CGM fod yn blwraliaethol ei natur. Mae sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi hyn yn briodol yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## Ymgynghori

Er mwyn deall barn a safbwyntiau'r gymuned ynghylch y cynigion, fe'u cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mai 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ymatebwyr ar agweddau penodol ar y cynigion, gan gynnwys cwmpas CGM a'r disgwyliadau a osodir ar ysgolion o ran datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm. Cafodd Llywodraeth Cymru 462 o ymatebion unigryw gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau ledled Cymru sydd â diddordeb mewn addysgu CGM. Er mwyn deall y materion a'r themâu a nodwyd gan ymatebwyr, comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion. Nod y dadansoddiad oedd deall a mapio'r ystod o farn a safbwyntiau ymatebwyr ynghylch y cynigion.

## Canfyddiadau

### Cwmpas y CGM

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno y dylai CGM gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol, roedd 44 y cant yn cytuno, 28 y cant yn anghytuno, a 27 y cant yn ansicr.

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, roeddent yn aml yn teimlo bod darpariaeth gytbwys a phlwraliaethol yn bwysig wrth helpu plant a phobl ifanc i wneud synnwyr o wahanol grefyddau a syniadau ac ymgysylltu â nhw. O'r rhai oedd yn anghytuno, roeddent yn aml yn teimlo y dylai addysgu ganolbwyntio ar grefyddau'r byd ac y byddai addysgu ystod ehangach o bynciau a chredoau yn gwanhau'r ddarpariaeth. Roedd y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynigion yn cynnig amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys bod y cynigion yn ddiangen oherwydd bod y trefniadau presennol ac addysgu yn y dosbarth yn adlewyrchu'r egwyddorion cyffredinol a geir yn y cynigion.

## Canllawiau mewn Perthynas â'r Meysydd Llafur Cytunedig

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod yn rhaid i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig roi sylw i ganllawiau statudol wrth ddatblygu maes llafur cytunedig lleol, roedd 41 y cant yn cytuno, 36 y cant yn ansicr, a 23 y cant yn anghytuno.

Teimlai'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod meysydd llafur cytunedig yn hyrwyddo archwiliad plwraliaethol a chytbwys o grefyddau a safbwyntiau bydeang. Roedd cryn ansicrwydd ymysg ymatebwyr, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno a'r rhai oedd yn anghytuno â'r cynigion, o ran union ystyr 'rhaid rhoi sylw i ganllawiau statudol'. Teimlid bod hyn yn agored i gael ei ddehongli, gan y rhai a hoffai weld mwy o blwraliaeth, a hyd yn oed addysgu seciwlar, mewn ysgolion a chan y rhai a deimlai fod y cynigion yn cyfyngu ar gwmpas ysgolion wrth ymgorffori addysgu crefyddol, yn enwedig mewn ysgolion â chymeriad crefyddol.

## Ysgolion heb Gymeriad Crefyddol

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod yn rhaid i ysgolion heb gymeriad crefyddol ystyried maes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu CGM, roedd 45 y cant yn ansicr, 40 y cant yn cytuno, a 15 y cant yn anghytuno.

Fel gyda chanllawiau ynghylch meysydd llafur cytunedig, roedd llawer o ymatebwyr eisiau eglurhad ar union natur a theimlad y cynigion. Roedd rhai yn ansicr, er enghraifft, o'r gwahaniaeth rhwng y maes llafur cytunedig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a maes llafur cytunedig lleol. O'r rhai oedd yn cytuno, roedd llawer yn tueddu i feddwl bod y cynigion yn cwmpasu'r cydbwysedd cywir rhwng hyrwyddo hyblygrwydd a dehongli lleol, gyda phwysigrwydd sicrhau bod y ddarpariaeth yn gytbwys ac yn gyson ar draws lleoliadau. I'r gwrthwyneb, roedd y rhai oedd yn anghytuno yn tueddu i deimlo bod dehongli lleol yn broblematig ac y gallai alluogi darpariaeth oedd yn dangos tuedd tuag at enwad penodol.

## Rhieni/Gofalwyr a CGM mewn Ysgolion heb Gymeriad Crefyddol

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno na ddylai rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol allu gofyn am ddarpariaeth CGM yn unol ag egwyddorion ffydd benodol mwyach, roedd 50 y cant yn anghytuno, 39 y cant yn cytuno, a 12 y cant yn ansicr.

Un pryder allweddol ymhlith yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno â'r cynigion oedd gallu rhieni ag argyhoeddiadau crefyddol ond nad oedd eu plant yn mynychu ysgolion â chymeriad crefyddol i geisio a sicrhau addysgu oedd yn sensitif i'w ffydd. O'r rhai oedd yn cytuno ag egwyddorion y cynigion ac a ymhelaethodd ar eu barn, nodwyd themâu tebyg, gan gynnwys manteision addysg blwraliaethol. Roedd y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynigion yn tueddu i gyflwyno cefnogaeth amodol i'r cynigion, gan awgrymu y dylai rhieni gael gwybodaeth dda am natur a graddau'r ddarpariaeth CGM.

## Ysgolion Gwirfoddol a Reolir sydd â Chymeriad Crefyddol

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno y gall ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol addysgu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol os gofynnir iddynt wneud hynny gan rieni/gofalwyr, roedd 64 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno, 24 y cant yn anghytuno, a 12 y cant yn ansicr.

Roedd cydnabyddiaeth eang gan yr ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r cynigion nad oeddent yn cynrychioli newid sylweddol o'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Yn ôl y safbwyntiau hyn, roedd yn bwysig cadw lefel o ddisgresiwn rhieni yn yr union addysgu a gynnigir i blant a phobl ifanc. O'r rhai oedd yn anghytuno, roedd amrywiaeth o safbwyntiau. Teimlai rhai fod y cynigion yn groes i nodau cyffredinol y ddeddfwriaeth, gan gynnwys hyrwyddo a sefydlu addysgu CGM plwraliaethol. Roedd y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn tueddu i gynnig safbwyntiau tebyg, gan fynegi cefnogaeth i'r cynigion oedd yn ymwneud â phwysigrwydd cyflwyno cwricwlwm cyffredin ar hyd a lled ysgolion.

## Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr sydd â Chymeriad Crefyddol

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol addysgu'r maes llafur cytunedig pan fo rhiant/gofalwr yn gofyn amdano ac na ddylai fod disgresiwn ganddynt i wrthod gwneud hynny, roedd 66 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno, 27 y cant yn cytuno, a 7 y cant yn ansicr.

Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno â'r cynigion yn cynnig amrywiaeth eang o safbwyntiau. Roedd y rhain yn cynnwys dau safbwynt gwahanol penodol, gan gynnwys y rhai a deimlai fod y cynigion yn gosod disgwyliaid beichus ar ysgolion ffydd, yn ogystal â'r rhai a deimlai fod y cynigion yn rhoi gormod o le i ysgolion ffydd barhau i gynnig darpariaeth enwadol. Yn fras, gellir nodweddu'r safbwyntiau fel y rhai sy'n teimlo bod y cynigion yn mynd yn rhy bell a'r rhai sy'n teimlo nad ydynt yn mynd yn ddigon pell i sicrhau darpariaeth blwraliaethol. Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r cynigion yn tueddu i awgrymu ei bod yn bwysig sicrhau dewis pan nad yw rhieni, gofalwyr neu bobl ifanc yn rhannu credoau'r ysgol dan sylw.

## Goblygiadau ar gyfer y Gymraeg

Ar y cyfan, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n cynnig barn neu yn teimlo na fyddai'r cynigion yn cael fawr o effaith ar y defnydd o'r Gymraeg. Teimlai rhai y byddai'r cynigion o fudd i'r Gymraeg. Yn ôl y safbwyntiau hyn, gallai cyflwyno archwiliad plwraliaethol a chytbwys o wahaniaeth, gan gynnwys credoau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol, wneud plant a phobl ifanc yn fwy agored a goddefgar. Yn y cyfamser, tynnodd eraill sylw at faterion fel pwysigrwydd datblygu adnoddau Cymraeg amserol o ansawdd uchel i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch llwyth gwaith athrawon a'r rhwystr posibl y mae'n ei gyflwyno wrth ymateb ac addasu i gynigion, yn enwedig mewn ysgolion Cymraeg.

## Casgliadau

Ar y cyfan, roedd y prif bryder a fynegwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r cynigion yn canolbwyntio ar y graddau y gallai ysgolion ddehongli ac addasu i'r cwricwlwm CGM, yn ogystal ag i ba raddau mae'r diwygiadau'n gwneud hyn yn bosibl.

I rai ymatebwyr, mae dehongli lleol yn bwysig oherwydd byddai hyn yn galluogi CGM i adlewyrchu dymuniadau teuluoedd, ysgolion a chymunedau, gan gynnwys y rhai â chredoau crefyddol. Roedd y safbwyntiau hyn yn tueddu i anghytuno â'r cynigion lle roeddent yn teimlo eu bod yn cyfyngu ar allu ysgolion i gynnig darpariaeth CGM enwadol, yn enwedig ysgolion sydd â chymeriad crefyddol. Yn y cyfamser, teimlai eraill fod dehongli lleol yn broblematig ac y dylai plant a phobl ifanc gael addysg CGM gyson, blwraliaethol ledled Cymru. Roedd y safbwyntiau hyn yn tueddu i anghytuno â'r cynigion lle roeddent yn teimlo eu bod yn rhoi gormod o ddisgresiwn i ysgolion a chymunedau wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, yn enwedig ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

Roedd consensws cyffredinol ar hyd a lled yr ymatebion o ran egwyddor a phwysigrwydd plwraliaeth mewn addysgu CGM. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys ymatebwyr o ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, yn teimlo bod hyn eisoes wedi bod yn digwydd a'i fod eisoes wedi ei ymgorffori mewn addysgu a dysgu Addysg Grefyddol. Er bod gwrthwynebiadau gan rai ymatebwyr ynghylch union ddiffiniad a chynnwys credoau athronyddol o fewn CGM, nid oedd pwysigrwydd a'r syniad o ddarpariaeth gytbwys sy'n trafod nifer o grefyddau yn ddadleuol i'r mwyafrif helaeth o ymatebwyr.

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion sy'n rhoi adborth ar y cynigion deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) sydd wedi eu cynnwys yn Fframwaith Cwricwlwm Cymru.

## 1.1 Cefndir

Fel rhan o'r diwygiadau ehangach sydd wedi eu cynnwys yn y Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â CGM. Bydd yn parhau i fod yn orfodol o fewn y Cwricwlwm i Gymru, ond ar hyn o bryd i bob dysgwr 3–16 oed fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Mae Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar gyfraith achosion gyfredol, yn bwriadu i addysgu CGM fod yn blwraliaethol ei natur. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cydbwysu ei gynnwys a'i ddull addysgu. Dylai adlewyrchu'r ystod o wahanol grefyddau, argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol neu safbwyntiau byd-eang pobl yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi hyn yn briodol yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## 1.2 Newidiadau Arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud y newidiadau canlynol:

### 1.2.1 Cwmpas CGM

Yn ogystal â newid yr enw i CGM, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytunedig ar gyfer CGM adlewyrchu credoau crefyddol a chredoau anghrefyddol. Mae'r rhain yn cynnwys argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinnir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Y nod yw ei gwneud yn gliriach pa argyhoeddiadau a chredoau athronyddol y mae'n ofynnol eu hadlewyrchu mewn addysgu, gan gynnwys dyneiddiaeth ac anffyddiaeth.

Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y newidiadau hyn yn adlewyrchu newid sylweddol yn y gyfraith. Maent o'r farn bod y newidiadau'n egluro'r hyn mae'r gyfraith eisoes yn ei ofyn — addysgu Addysg Grefyddol yn blwraliaethol yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod mwy o eglurder yn ddefnyddiol ac yn cyfrannu at gyfleu'r disgwyliad bod yn rhaid i Addysg Grefyddol (a bellach CGM) fod yn blwraliaethol.

### 1.2.2 Canllawiau mewn perthynas â meysydd llafur cytunedig

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig gwneud darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan weinidogion



Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur CGM cytunedig.

### 1.2.3 Meysydd llafur cytunedig a meysydd llafur enwadol a disgwyladau ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig nifer o newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol gan ei bod yn ymwneud ag addysgu CGM mewn gwahanol fathau o ysgolion. Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn darparu fframwaith cenedlaethol clir lle bydd ysgolion yn cynllunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Bwriedir i'r cwricwlwm newydd fod yn llai rhagnodol ac, yn bwysig, mae'n creu dyletswyddau newydd i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm eu hunain ac yna gweithredu'r cwricwlwm y maent wedi ei gynllunio a'i fabwysiadu. Mae'r pwyslais polisi ar lai o ragnodi a goblygiadau ymarferol gofyn i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm eu hunain yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried statws priodol meysydd llafur cytunedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad y bydd yn fwy priodol, yn gyffredinol, i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion roi sylw i faes llafur cytunedig yn hytrach nag addysgu yn unol ag ef. Mae'r newid hwn yn rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i ysgolion wyro oddi wrth y maes llafur cytunedig.

#### Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol sydd heb gymeriad crefyddol

Bydd yn ofynnol i ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol sydd heb gymeriad crefyddol roi sylw i faes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu addysgu a dysgu ar gyfer elfen orfodol CGM o fewn cwricwlwm yr ysgol. Bydd CGM ei hun yn cael ei gyflwyno fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Ni fydd yn ofynnol mwyach i'r ysgolion hyn addysgu yn unol â maes llafur cytunedig, a byddant yn parhau i gael eu hatal rhag cynnig maes llafur enwadol.

Er bod yr ysgolion hyn yn gyffredinol yn darparu Addysg Grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig, efallai y bydd yn ofynnol iddynt ddarparu Addysg Grefyddol ar ffurf wahanol, yn unol â pharagraff 2(3) o Atodlen 19 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, os:

- mai ysgol uwchradd yw'r ysgol dan sylw; a
- mae rhiant disgybl eisiau i'r disgybl gael Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn unol ag egwyddorion crefyddol neu enwad crefyddol penodol; a
- gwnaed trefniadau boddhaol i'r disgybl gael Addysg Grefyddol o'r math y mae'r rhiant ei heisiau yn yr ysgol, heb i'r ysgol na'r awdurdod lleol orfod talu'r gost o ddarparu'r addysg honno.

O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cyfleusterau ar gyfer cyflawni'r trefniadau a wneir gan y rhieni, oni bai bod yr awdurdod yn fodlon bod amgylchiadau arbennig sy'n ei gwneud yn afresymol gwneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dileu'r hawl ychwanegol hon i Addysg Grefyddol amgen (a allai beidio â bod yn blwraliaethol) mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol am nad ydynt yn ystyried ei bod yn cyd-fynd â'r egwyddor o geisio sicrhau Addysg Grefyddol blwraliaethol mewn ysgolion yng Nghymru.

## Ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol

Bydd yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol gynllunio eu cwricwlwm fel ei fod yn darparu ar gyfer y ddau ddewis arall canlynol:

- CGM sydd wedi ei gynllunio i roi sylw i faes llafur cytunedig
- CGM sydd wedi ei gynllunio yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol

Wrth weithredu eu cwricwlwm, y rhagosodiad ar gyfer yr ysgolion hyn fydd i ddysgwyr gael CGM sydd wedi ei gynllunio i roi sylw i faes llafur cytunedig, ond, fel nawr, rhaid darparu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd pan fydd rhiant yn gofyn amdano.

## Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol

Bydd yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol gynllunio eu cwricwlwm fel ei fod yn darparu ar gyfer y ddau ddewis amgen canlynol:

- CGM sydd wedi ei gynllunio yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol
- CGM sydd wedi ei gynllunio yn unol â maes llafur cytunedig

Wrth weithredu eu cwricwlwm, y rhagosodiad ar gyfer yr ysgolion hyn, fel nawr, fydd i ddysgwyr gael CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol. Fodd bynnag, pan fydd rhiant yn gofyn am CGM yn unol â maes llafur cytunedig, rhaid ei ddarparu. Ni fydd gan yr ysgolion unrhyw ddisgresiwn wrth benderfynu a ddylid derbyn y cais hwn ai peidio.

Mae'r newidiadau'n adeiladu'r bwriadau polisi hyn yn syml i'r dyletswyddau dylunio a gweithredu newydd fydd yn cael eu rhoi ar ysgolion gan y bil. Hefyd, mae'r cynigion yn sicrhau bod fersiwn anenwadol a phlwrailaethol o CGM ar gael ym mhob ysgol, naill ai'n ddiodyn neu bod yn rhaid ei ddarparu ar gais. Fel y nodwyd uchod mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig caniatáu i'r ysgolion hynny addysgu CGM yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu eu henwad. Mae hyn yn gwarchod y sefyllfa bresennol ar gyfer yr ysgolion hynny.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig gwneud newidiadau eraill er mwyn sicrhau bod gan rieni hawl absoliwt i'w gwneud yn ofynnol i'r ysgol ddarparu CGM yn unol â maes llafur cytunedig pan ofynnir amdano. Ar hyn o bryd, mae hawl rhieni i ddarpariaeth o'r fath yn gymwysedig. Er y gall rhieni ofyn i Addysg Grefyddol gael ei haddysgu yn unol â maes llafur cytunedig, nid oes dyletswydd ar yr ysgol ar hyn o bryd i wneud trefniadau i'r perwyl hwnnw os yw'n rhesymol gyfleus i'r disgybl fynychu ysgol arall lle mae'r maes llafur cytunedig yn cael ei ddefnyddio, neu os oes amgylchiadau arbennig sy'n ei gwneud yn afresymol i'r ysgol wneud y trefniadau gwahanol hynny.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ei bod yn ofynnol i ysgolion roi sylw i faes llafur cytunedig, yn hytrach na bod gofyn iddynt gynllunio eu cwricwlwm yn unol â maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig eithriad i'r dull cyffredinol hwn lle mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn cynllunio eu cwricwlwm CGM 'amgen' neu'n ei weithredu. Nid yw'r eithriad hwn yn effeithio ar eu darpariaeth CGM enwadol. Y rheswm dros gynnig y gwahaniaeth hwn yw cynnig eglurder i rieni ynglŷn â'r ddarpariaeth CGM amgen sydd ar gael yn yr ysgolion hynny.

Bydd angen i ysgolion barhau i sicrhau eu hunain bod eu darpariaeth CGM yn bodloni'r gofynion plwraliaethol a grëwyd gan ddeddfwriaeth hawliau dynol, a bydd angen i CYSAGau, Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ac awdurdodau lleol barhau i sicrhau bod unrhyw faes llafur cytunedig y maent yn ei ddatblygu ac yna'n ei fabwysiadu hefyd yn bodloni'r gofynion hyn.

### 1.3 Ymgynghori

Er mwyn deall barn a safbwyntiau'r gymuned ynghylch y cynigion, fe'u cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mai 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ymatebwyr ar agweddau penodol ar y cynigion, gan gynnwys cwrmpas CGM a'r disgwyliadau a osodir ar ysgolion o ran datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm.

#### Ymatebion

Rhwng Mai a Gorffennaf 2020, gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno eu barn. Cynigiwyd amrywiaeth o gyfleoedd i ymatebwyr fynegi eu barn a'u safbwyntiau ar y cynigion, gan gynnwys ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Cafodd Llywodraeth Cymru 462 o ymatebion unigryw gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn addysgu CGM. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn addysg a CGM.

#### Dull dadansoddol

Er mwyn deall y materion a'r themâu a nodwyd gan ymatebwyr, comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion. Nod y dadansoddiad oedd deall a mapio ystod o farn a safbwyntiau'r ymatebwyr ynghylch y cynigion sy'n ymwneud â CGM.

Creodd yr ymatebion amrywiaeth o wybodaeth feintiol ac ansoddol. Roedd yr holiadur ar-lein, er enghraifft, yn holi nifer o gwestiynau oedd yn gofyn i ymatebwyr am eu barn ar effaith bosibl y cynigion ac a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion. Hefyd, gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth yn cefnogi eu safiad. Er mwyn gwneud synnwyr o'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr, cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad manwl o'r cynnwys. Mae'r dull hwn yn archwilio pob ymateb yn systematig, gan dynnu sylw at y themâu a'r materion a nodir.

Mae nifer o gyfyngiadau o ran y dadansoddiad hwn sy'n bwysig i'w nodi. Nid yw'r ymatebwyr a gyfrannodd eu barn a'u safbwyntiau o reidrwydd yn cynrychioli cymuned ehangach rhieni, athrawon na'r cyhoedd yn gyffredinol. Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod yr ymatebion yn rhoi syniad o safbwyntiau, teimladau a barn y gymuned yn gyffredinol, yn hytrach na bod yn ddatganiad pendant.

Oherwydd y tebygolrwydd uchel o hunanddewis, nid ydym wedi ceisio cyfrif faint o ymatebwyr oedd â barn benodol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wedi bod yn ansoddol, gyda'r nod o gyfleu dealltwriaeth o'r ystod o themâu a materion allweddol a nodwyd gan ymatebwyr yn ogystal â'r rhesymau dros feddu ar safbwyntiau penodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd posibl o gytundeb ac anghytundeb rhwng y gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

Rhaid hefyd ystyried dehongli cydbwysedd barn yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnwyd, gan nad atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau, ac ni ddarparodd pob ymatebydd ddigon o wybodaeth i ymhelaethu ar eu barn yn fanwl gywir. Yn hyn o beth, nid yw termau ansoddol yn ddim ond arwydd o farn sy'n berthnasol i gwestiynau ar sail y rhai a ymatebodd. Felly, ni ellir tybio eu bod yn ymwneud yn rhifiadol â chyfanswm nifer y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd, nac â'r gymuned addysgol.


**Gyda'i gilydd, dylid dehongli'r dadansoddiad hwn i gynnig yr ystod o safbwyntiau sydd gan ymatebwyr yn unig, ac nid pa mor gyffredin yw barn y gymuned gyfan.**

## 2 Cwmpas CGM

### Cynigion Deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytunedig ar gyfer CGM adlewyrchu credoau crefyddol yn ogystal â chredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y newidiadau'n egluro'r hyn mae'r gyfraith eisoes yn ei ofyn — addysgu CGM plwraliaethol yn unol â'r Confensiwn Ewropeidd ar Hawliau Dynol.

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno y dylai CGM gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol, roedd 44 y cant yn cytuno, 28 y cant yn anghytuno, a 27 y cant yn ansicr<sup>1</sup>:



O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r cynigion ac a ymhelaethodd ar eu barn, un thema allweddol a nodwyd gan lawer oedd pwysigrwydd darparu addysgu CGM yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn ddiduedd yn y dosbarth. Yn ôl y safbwyntiau hyn, dylai CGM gwmpasu amrywiaeth o gredoau ac argyhoeddiadau athronyddol er mwyn helpu pobl ifanc i wneud synnwyr o wahanol grefyddau a syniadau ac ymgysylltu â nhw. Yn sail i'r safbwyntiau hyn roedd y syniad y gallai cwricwlwm CGM eang a chytbwys rymuso pobl ifanc, gan roi iddynt yr adnoddau i wneud casgliadau cytbwys a gwybodus mewn perthynas â chwestiynau moesegol ac ysbrydol:

<sup>1</sup> Ymatebion i Gwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol (yn unol â'r Confensiwn Ewropeidd ar Hawliau Dynol) fel y disgrifir yn y ddogfen ymgynghori?

*Mae'n hanfodol nad CGM yw'r modd i hyrwyddo unrhyw set benodol o gredoau ar draul rhai eraill. Dylai disgyblion gael cyfle i gael gwybod am yr ystod o syniadau ar foeseg, ac ati, y mae pobl wedi mynd i'r afael â hwy, eu hyrwyddo a'u gwahardd dros y canrifoedd. Yna gallant ddod i'w casgliadau gwybodus eu hunain.*

Unigolyn

Roedd sicrhau bod y ddarpariaeth yn ystyrllon ac yn berthnasol i bobl ifanc hefyd yn bwysig i'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r cynigion. Yn ôl y safbwyntiau hyn, credai rhai ymatebwyr fod crefydd ei hun yn chwarae rhan lai ym mywydau llawer o blant a phobl ifanc ac y byddai ymgysylltu â gwerthoedd ehangach a syniadau moesegol yn gwneud darpariaeth yn fwy ystyrllon a pherthnasol. Yn ôl y safbwyntiau hyn, dylai cynnwys a'r ffordd o gyflwyno CGM adlewyrchu'r gwerthoedd a safbwyntiau roeddent yn teimlo bod plant yn dod i gysylltiad â nhw yn eu rhyngweithiadau o ddydd i ddydd:

*Mae'n bwysig iawn i blant ddysgu am y gwahanol gredoau crefyddol AC anghrefyddol mewn cymdeithas, yn enwedig gan fod data'r cyfrifiad yn dangos bod rhannau o Gymru ymhlith rhannau mwyaf 'anghrefyddol' y DU.*

Academydd

Maes arall o syniadau a oedd yn dylanwadu ar yr ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r cynigion oedd pwysigrwydd sicrhau bod tuedd bosibl yn cael ei dileu o unrhyw addysgu CGM. Roedd ymatebwyr oedd yn cynnig y safbwynt hwn yn teimlo y dylai CGM gyflwyno dadansoddiad diduedd o grefydd mewn cymdeithas. Ar ymylon pellaf y safbwynt hwn, teimlai ymatebwyr yn gryf na ddylai'r addysgu wthio syniadau ar blant a phobl ifanc:

*Y prif bwynt ddylai fod yw ei bod yn orfodol i genedlaethau'r dyfodol gael gwybod am gredoau pobl eraill ac ati mewn ffordd ddiduedd er mwyn meithrin mwy o ddealltwriaeth a goddefgarwch o wahanol gredoau ac ati.*

Addysgwr

Thema ymylol oedd yn dylanwadu ar yr ymatebwyr hynny oedd yn cytuno oedd y ddealltwriaeth bod llawer o'r hyn sy'n cael ei gynnig eisoes yn digwydd mewn ysgolion. Yn ôl y safbwynt hwn, roedd y dull presennol o addysgu mewn dosbarthiadau, gan gynnwys mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, yn adlewyrchu teimladau a byrdwn y cynigion. Hefyd, teimlai rhai ymatebwyr fod sail gyfreithiol ar gyfer y diwygiadau eisoes a bod y cynigion yn gam rhesymegol i'r cyfeiriad cywir.

Roedd ymatebwyr oedd yn anghytuno â chynnwys credoau crefyddol ac anghrefyddol yn cynnig amrywiaeth o wrthwynebiadau. Teimlai rhai na ddylai'r cynigion gynnwys credoau anghrefyddol. Yn ôl y safbwyntiau hyn, teimlai rhai ei bod yn anodd pennu'r ffiniau rhwng credoau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddi-os, roedd yr ymatebwyr hyn hefyd eisieu addysgu crefyddol fod yn flaenoriaeth ac roeddent yn pryderu am y posibilrwydd o wanhau'r ddarpariaeth:

*Rwy'n credu na ddylai ysgolion fod yn addysgu cynnwys anghrefyddol. Rwy'n llwyr gefnogi dull aml-ffydd cynhwysol o ymdrin ag Addysg Grefyddol, lle caiff pob crefydd ei dathlu a'i haddysgu.*

Unigolyn

*Nid ydym yn cytuno â'r diffiniad o argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinnir gan y Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd cydbwyso safbwyntiau byd-eang crefyddol ac anghrefyddol yn anodd a gall arwain at y pwnc yn adlewyrchu safbwyntiau seciwlar cul heb fawr o ystyriaeth i grefydd.*

Anhysbys

Roedd sicrhau bod dewis rhieni yn cael ei barchu hefyd yn thema a nodwyd gan rai o'r ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu'r cynigion. Teimlai'r ymatebwyr hyn fod cadw'r hawl i ddewis union ethos a ffocws yr addysg yn bwysig:

*Mae gan ddisgyblion ddewis i fynychu ysgol seciwlar. Os yw'r dewis hwn wedi cael ei wneud, mae detholiad mawr o ddarpariaeth ffydd neu heb ffydd yn briodol; fodd bynnag, os yw plentyn a rhiant wedi dewis addysg ffydd, caniatewch i'r ysgol a'r athrawon gyflwyno cwricwlwm priodol. Mae crefyddau eraill bob amser yn cael eu trafod ond NI ddylai hyn gael ei bennu gan y llywodraeth.*

Unigolyn

I'r gwrthwyneb, thema arall oedd yn dylanwadu ar yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno â'r cynigion oedd y canfyddiad na ddylai cwmpas y cynigion gynnwys credoau crefyddol o gwbl. Yn ôl y safbwynt hwn, dylai addysg a'r cwricwlwm fod yn seciwlar eu natur:

*Dylai ysgolion addysgu ar sail creadigrwydd a ffeithiau absoliwt a bod yn 100% seciwlar.*

Unigolyn

Roedd yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynigion yn tueddu i gynnig cymorth amodol. Roedd rhai ymatebwyr, er enghraifft, yn teimlo bod priodoldeb y cynigion yn dibynnu ar yr ysgol, gyda goblygiadau ehangach i'r rhai â chymeriad crefyddol. Yn y cyfamser, teimlai eraill fod y cynigion yn ddiangen a bod y trefniadau presennol a'r addysgu yn y dosbarth yn adlewyrchu egwyddorion cyffredinol y cynigion:

*Rwy'n credu bod y cynigion hyn yn ddiangen. Mae'r canllawiau presennol eisoes yn fwy na digonol... Mae addysg grefyddol mewn ysgolion Catholig yn trafod amrywiaeth o grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol. Addysgir y rhain drwy'r cwricwlwm cyfan.*


Athro

## 3 Canllawiau mewn Perthynas â Meysydd Llafur Cytunedig

### Cynigion Deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, CYSAGau a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytunedig.

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod yn rhaid i'r Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig roi sylw i ganllawiau statudol wrth ddatblygu maes llafur cytunedig lleol, roedd 41 y cant yn cytuno, 36 y cant yn ansicr, a 23 y cant yn anghytuno<sup>2</sup>:



O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r egwyddor ac a ymhelaethodd ar eu barn, roedd y themâu'n adlewyrchu'n fras safbwyntiau ar gwmpas CGM. Roedd hyn yn cynnwys rôl meysydd llafur cytunedig wrth sicrhau bod y ddarpariaeth yn gytbwys ac yn cwmpasu ystod o gredoau crefyddol ac anghrefyddol. Teimlai rhai ymatebwyr fod canllawiau statudol yn fecanwaith pwysig wrth sicrhau darpariaeth CGM gytbwys a phlwrailaethol. Yn ôl y safbwyntiau hyn, byddai canllawiau statudol yn helpu ysgolion ac athrawon i lunio'r cwricwlwm:

*Mae'n hanfodol bod pob Cynhadledd Meysydd Llafur Cytunedig yn ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu eu maes*

<sup>2</sup> Ymatebion i Gwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y dylai cynadleddau meysydd llafur cytunedig roi sylw i ganllawiau statudol wrth ddatblygu eu maes llafur cytunedig lleol?



*llafur cytunedig lleol. Y rheswm am hyn yw mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod y meysydd llafur sy'n cael eu datblygu yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol yn briodol i fod yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol' tra'n parhau i ganiatáu rhai gwahaniaethau lleol (e.e. adlewyrchu'r boblogaeth leol).*

Unigolyn

Roedd themâu pellach yn cynnwys cydnabod rôl canllawiau statudol wrth sicrhau bod y ddarpariaeth CGM yn gyson ar y cyfan ar draws gwahanol AALLau ac yng Nghymru gyfan:

*Heb ystyried canllawiau statudol, mae perygl na fydd gwahanol Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig yn gallu darparu meysydd llafur cytunedig lleol sy'n gydnaws ar draws y gwahanol AALLau.*

Unigolyn

*Mae hyn yn bwysig er mwyn annog ysgolion ffydd i gyflwyno safbwyntiau byd-eang eraill yn deg a gyda chysondeb ledled y wlad.*

Athro

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd canfyddedig canllawiau o ran sicrhau bod ysgolion yn rhoi digon o amser a sylw i CGM. Yn amlwg yn y safbwyntiau hyn roedd y pryder y byddai CGM yn cael rôl lai amlwg mewn addysgu yn y cwricwlwm newydd. Byddai canllawiau clir a chyson yn sicrhau bod CGM yn parhau i fod yn rhan bwysig o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau:

*Gyda'r newidiadau sylweddol i'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas ag Addysg Grefyddol yn cael eu hymgorffori ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, mae'n hanfodol bod ysgolion yn cael eu harwain yn briodol i sicrhau nad yw'r pwnc yn colli ei statws fel pwnc statudol mewn addysg a bod holl athrawon y pwnc (arbenigol ac heb fod yn arbenigol) yn gwbl ymwybodol o'r gofynion yn y pwnc hwn.*

Unigolyn

Gofynnodd llawer o ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r cynigion neu oedd yn ansicr ynghylch y cynigion am eglurhad ynghylch dau beth. Yn gyntaf, roedd cryn ansicrwydd ynghylch union ystyr 'rhaid rhoi sylw i ganllawiau statudol'. Teimlid bod hyn yn agored i gael ei ddehongli, gan y rhai a hoffai weld mwy o blwraliaeth, a hyd yn oed addysgu seciwlar, mewn ysgolion a chan y rhai a deimlai fod y cynigion yn cyfyngu ar gwmpas ysgolion wrth ymgorffori addysgu crefyddol, yn enwedig mewn ysgolion â chymeriad crefyddol:

*Nid yw'n bosibl cytuno â'r cwestiwn hwn, o ystyried diffyg eglurder ynghylch agweddau hollbwysig ar y geiriad. Mae angen diffinio'r term 'rhaid rhoi sylw i ganllawiau statudol' ymhellach. Nid yw'n glir a yw'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at y fframwaith ategol neu at ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.*

Unigolyn

*Nid yw 'rhaid rhoi sylw' yn derm defnyddiol ac nid oes ganddo statws statudol. Rhaid i ganllawiau'r cwricwlwm fynnu mwy na 'rhoi sylw'. Mae angen cryfhau hyn; fel arall bydd diffyg eglurder yn parhau.*

Unigolyn

Yn ail, teimlai rhai ymatebwyr hefyd fod angen mwy o eglurhad ynglŷn â chynnwys sylweddol y canllawiau eu hunain:

*Mae'r ysgol yn cefnogi annibyniaeth CYSAG, wedi ei wreiddio fel y mae mewn gwybodaeth leol. Mae staff yr ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at weithgarwch CYSAG. Ystyrir ei fod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu perthynas ragorol â ffyddau a safbwyntiau byd-eang eraill. Byddem yn gobeithio y gallai cyflwyno canllawiau statudol effeithiol rymuso CYSAG ymhellach, ond mae'n hanfodol cael mwy o eglurder ar y canllawiau arfaethedig.*

Llywodraethwr Ysgol, Ysgol Sydd â Chymeriad Crefyddol

Yn fwy cyffredinol, cyfeiriodd yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno â'r cynigion at amrywiaeth o wrthwynebiadau. Roedd y rhain yn adlewyrchu'n fras y safbwyntiau a'r farn ynghylch ehangiad ymddangosiadol CGM i gynnwys credoau anghrefyddol, yn ogystal â phwysigrwydd sicrhau dewis rhieni a rhyddid crefyddol:

*Mae angen i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol gael rhyddid i addysgu yn unol â'u traddodiadau a'u gweithiau ysgrifenedig. Dylai ysgolion cymunedol roi ystyriaeth ofalus i'r cyd-destun y maent yn gweithredu ynddo. Dylid gofyn am farn rhieni wrth ddatblygu maes llafur.*

Unigolyn

Roedd gwrthwynebiadau hefyd ar y sail y gallai unrhyw ganllawiau effeithio ar allu ysgolion a chymunedau i lunio darpariaeth, a nododd rhai ei fod yn un o egwyddorion allweddol y Cwricwlwm newydd i Gymru:

*Fel ymarferwyr ysgol, rydym yn cefnogi ymreolaeth a gwybodaeth leol CYSAGau/Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ac yn ystyried bod eu goruchwyliaeth o'r maes llafur addysg grefyddol cytunedig lleol yn amhrisiadwy. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y newidiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad a'r bil drafft yn ymestyn swyddogaethau CYSAGau/ Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i gynnwys cynghori mewn perthynas ag Addysg Grefyddol Gatholig. Nid yw CYSAGau/ Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig erioed wedi cael unrhyw swyddogaethau*

*cyngori mewn perthynas ag Addysg Grefyddol enwadol. Mae hwn yn newid arwyddocaol iawn gyda goblygiadau difrifol. Mae'n effeithio ar hawliau esgobion i barhau i fod yr unig rai sy'n penderfynu ar addysg enwadol Gatholig.*


Anhysbys

## 4 Ysgolion sydd heb Gymeriad Crefyddol

### Cynigion Deddfwriaethol

O dan y cynigion deddfwriaethol, bydd yn ofynnol i ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol sydd heb gymeriad crefyddol roi sylw i faes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm CGM. Bydd hyn yn elfen orfodol o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Ni fydd yn ofynnol mwyach i'r ysgolion hyn addysgu yn unol â maes llafur cytunedig, a byddant yn parhau i gael eu hatal rhag cynnig maes llafur enwadol.

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod yn rhaid i ysgolion sydd heb gymeriad crefyddol roi sylw i faes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu CGM, roedd 45 y cant yn ansicr, 40 y cant yn cytuno, a 15 y cant yn anghytuno<sup>3</sup>:



Ni wnaeth cyfran sylweddol o ymatebwyr ymhelaethu ar eu syniadau ynghylch elfen hon y cynigion. O'r rhai a wnaeth hynny, roedd llawer eisiau eglurhad ar union natur a theimlad y cynigion. Roedd rhai yn ansicr, er enghraifft, o'r gwahaniaeth rhwng y maes llafur cytunedig sydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a maes llafur cytunedig lleol. Roeddent yn teimlo'n ansicr o'r priod rolau y maent yn eu chwarae wrth lunio darpariaeth. Roedd y safbwynt hwn yn cyfrif, yn rhannol o leiaf, am y niferoedd cymharol uchel o ymatebwyr a atebodd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynigion:

<sup>3</sup> Ymatebion i Gwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig bod yn rhaid i ysgolion cymunedol a sefydledig a gwirfoddol sydd heb gymeriad crefyddol roi sylw i faes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu CGM?

*Mae diffyg eglurder ynghylch ystyr y geiriau 'mae'n ofynnol iddynt roi sylw' a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol. Oni bai mai'r bwriad yw rhoi 'sylw dyledus', yna mae'r cynnig hwn yn gwanhau'r sefyllfa bresennol, lle mae'n rhaid i ysgolion addysgu 'yn unol â' y maes llafur cytunedig lleol. Mae'r cyfeiriad yn y cwestiwn at 'maes llafur cytunedig' yn bryder... 'y maes llafur cytunedig' ddylai hyn fod, onid ef? Fel arall, mae hyn yn gadael ysgolion yn agored i ddilyn unrhyw faes llafur cytunedig.*

Ysgol Sydd â Chymeriad Crefyddol, Yr Eglwys yng Nghymru

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r cynigion, ni ymhelaethodd mwyafrif sylweddol ar eu barn. Ailadroddodd rhai bwyntiau cynharach o ran gwerth cwricwlwm CGM cytbwys a phlwraliaethol. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebwyr oedd eisiau darpariaeth fwy unffurf a chyffredinol ledled Cymru:

*Yn fy marn i, dylai pob ysgol — waeth beth fo'i natur — ddilyn un maes llafur cenedlaethol cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn fy marn i, mae holl syniad ac arfer CYSAG lleol wedi dyddio, am nifer o resymau. Gellid addysgu maes llafur pwrpasol a deinamig cytunedig, a grëwyd ar gyfer y cyfnodau allweddol gan arbenigwyr pwnc, i bob disgybl mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol a byddai'n sicrhau bod gan bob disgybl ddealltwriaeth eang a chyffredin o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol pwysicaf.*

Unigolyn

Roedd ymatebwyr eraill yn tueddu i feddwl bod y cynigion yn cwmpasu'r cydbwysedd cywir rhwng hyrwyddo hyblygrwydd a dehongli lleol, gyda phwysigrwydd sicrhau bod y ddarpariaeth yn gytbwys ac yn gyson ar hyd a lled lleoliadau:

*Mae hyn yn ymddangos yn ddull rhesymol, gan mai ysbryd y cwricwlwm newydd oedd caniatáu hyblygrwydd i ysgolion wrth ddatblygu blaenoriaethau'r cwricwlwm ar lefel leol. Bydd 'sylw dyledus' yn golygu bod yn rhaid iddynt ddilyn yr egwyddorion allweddol.*

Academydd

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno â'r cynigion, roedd rhai'n deall bod y cynigion yn cynnig hyblygrwydd y gellid ei ddehongli a'i weithredu'n lleol mewn ffyrdd nad oeddent yn teimlo eu bod o gymorth:

*Rwy'n credu bod yn rhaid i ysgolion addysgu yn unol â'r canllawiau statudol (cyn belled â bod y canllawiau hyn yn blwraliaethol ac yn gytbwys...). Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r newid... arfaethedig yn caniatáu i ysgolion wyro oddi wrth y maes llafur cytunedig. Mae hyn yn beryglus, gan y bydd yn caniatáu i ysgolion newid y maes llafur fel ei fod yn dangos tuedd tuag at neu yn erbyn crefydd neu argyhoeddiad athronyddol penodol.*

Unigolyn


Teimlai ymatebwyr eraill fod y cynigion yn creu disgwyliadau gwahanol ar gyfer ysgolion sydd â chymeriad crefyddol a'r rhai heb gymeriad crefyddol a bod hyn yn broblematig. Adlewyrchwyd hyn mewn amrywiaeth o wahanol safbwyntiau, gan gynnwys y rhai oedd eisiau gweld mwy o blwraliaeth neu ymagwedd fwy seciwlar tuag at CGM, yn ogystal â'r rhai oedd eisiau gweld crefydd yn chwarae rhan amlycach ym mywyd ysgolion heb gymeriad crefyddol.

## 5 Rhieni/Gofalwyr a CGM mewn Ysgolion heb Gymeriad Crefyddol

### Cynigion Deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sicrhau bod pob plentyn mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol yn dysgu'r maes llafur CGM cytunedig. Maent yn ceisio dileu hawl ychwanegol rhieni i CGM amgen, a allai beidio â bod yn blwraliaethol, yn unol ag egwyddorion ffydd benodol.

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno na ddylai rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol allu gofyn am ddarpariaeth CGM yn unol ag egwyddorion ffydd benodol mwyach, roedd 50 y cant yn anghytuno, 39 y cant yn cytuno, a 12 y cant yn ansicr<sup>4</sup>:



Un pryder allweddol ymhlith y rhai oedd yn anghytuno â'r cynigion oedd gallu rhieni ag argyhoeddiadau crefyddol ond nad yw eu plant yn mynychu ysgolion â chymeriad crefyddol i geisio a sicrhau addysgu oedd yn sensitif i'w ffydd. Yn ôl y safbwyntiau hyn, roedd pryderon ynghylch datblygiad moesol ac ysbrydol plant a'i bod yn bwysig sicrhau bod negeseuon a dderbyniwyd yn yr ysgol yn gyson â gwerthoedd ac addysgu gartref:

<sup>4</sup> Ymatebion i Gwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig na ddylai rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol allu gofyn am ddarpariaeth CGM yn unol ag egwyddorion ffydd benodol mwyach?

*Dylai rhieni barhau i allu gofyn am ddarpariaeth Addysg Grefyddol arbenigol neu leiafrifol, ar yr amod mai dim ond i'r plentyn hwnnw ac nid y dosbarth/ysgol gyfan y dylid ei chyflwyno.*

Unigolyn

*Mae angen parchu credoau diwylliannol ac ysbrydol rhieni, a dylent gael llais wrth lunio'r ddarpariaeth. Onid dyna natur cwricwlwm a ddiffiniwyd yn lleol?*

Unigolyn

Mynegodd rhai ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r agweddau hyn ar y cynigion y dymuniad i gadw'r hawl i dynnu'n ôl o ddarpariaeth Addysg Grefyddol. Roedd yr hawl i dynnu'n ôl wedi bod yn destun ymgynghoriad blaenorol, ac yn dilyn trafodaethau gydag amrywiaeth o randdeiliaid, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dileu'r hawl i dynnu'n ôl:

*Rhieni yw prif ffynhonnell addysg grefyddol eu plant a rhaid iddynt gadw'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o wersi a all fod yn groes i'w hargyhoeddiadau crefyddol. Mae hyn yn arbennig o wir am ysgolion sydd heb unrhyw gysylltiadau â'r Eglwys.*

Athro

*Dylai fod gan rieni yr hawl i ddewis pa agweddau ar CGM y maent yn dymuno i'w plentyn gael ei addysgu mewn ysgol nad yw'n ysgol ffydd.*

Unigolyn

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno ag egwyddorion y cynigion ac a ymhelaethodd ar eu barn, nodwyd themâu tebyg i'r rhai mewn atebion blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau darpariaeth gytbwys a diduedd, a manteision addysg blwraliaethol:

*Dylai myfyrwyr gael addysg wrthrychol sy'n cwmpasu pob ffydd ac yn cydnabod nad yw moesoldeb yn deillio o grefydd yn unig.*

Unigolyn

Roedd yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynigion yn tueddu i gyflwyno cefnogaeth amodol i'r cynigion, gan awgrymu y dylai rhieni gael gwybodaeth dda am natur a graddau'r ddarpariaeth CGM. Yn y cyfamser, tynnodd eraill sylw at gafeatau neu bryderon; er enghraifft, amlinellodd un ymatebydd bwysigrwydd cynnal hyder yn y ddarpariaeth CGM ymhlith rhieni:

*Anaml y mae rhieni wedi arfer yr hawl hon [i dynnu'n ôl] yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o rieni sy'n dymuno tynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol wedi bod yn fodlon nad yw eu plant yn cymryd rhan yn y gwersi. Fodd bynnag, gall dileu'r hawl i dynnu'n*



*ôl, ynghyd â chyfranogiad gorfodol mewn Addysg Grefyddol (neu CGM), arwain at gynnydd mewn addysgu gartref neu fathau amgen eraill o addysg.*

Unigolyn

## 6 Ysgolion Gwirfoddol a Reolir sydd â Chymeriad Crefyddol


### Cynigion Deddfwriaethol

O dan y cynigion, bydd yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol gynllunio eu cwricwlwm fel ei fod yn darparu ar gyfer dau ddewis arall:

- CGM sydd wedi ei gynllunio i roi sylw i faes llafur cytunedig.
- CGM sydd wedi ei gynllunio yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol.

Wrth weithredu'r cwricwlwm, dylai ysgolion gwirfoddol a reolir ddarparu CGM sydd wedi ei gynllunio i roi sylw i faes llafur cytunedig, ond, fel nawr, rhaid darparu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd pan fo rhiant yn gofyn amdano.

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno y gall ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol addysgu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol os gofynnir iddynt gan rieni/gofalwyr, roedd 64 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno, 24 y cant yn anghytuno, a 12 y cant yn ansicr<sup>5</sup>:



Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol gan y rhai oedd yn cytuno â'r cynigion nad oeddent yn cynrychioli newid sylweddol o'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Yn ôl y safbwyntiau

<sup>5</sup> Ymatebion i Gwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y gall ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol addysgu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol os gofynnir iddynt gan rieni/gofalwyr?

hyn, roedd yn bwysig cadw rhywfaint o ddisgresiwn rhieni yn yr union addysgu a gynigir i blant a phobl ifanc:

*[Rwy'n] croesawu'r cynnig bod ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol yn gallu addysgu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol os bydd rhieni/gofalwyr yn gofyn.*

Unigolyn

*Dylid cadw hyn, gan ei fod yn adlewyrchu sefyllfa bresennol, gytbwys yr ysgolion o ran CGM.*

Unigolyn

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd cynnal cymeriad crefyddol ysgol, ac yr hoffent hefyd weld CGM yn cael ei lunio ar gyfer enwad penodol:

*Mae'r ymddiriedolwyr yn sicrhau bod natur unigryw ysgolion ffydd yn cael ei chynnal ac yn unol â dysgeidiaethau'r Eglwys, yn yr un modd ag y mae ymddiriedolwyr ysgolion Cymraeg yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal.*

Unigolyn

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, roedd amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd rhai yn teimlo bod y cynigion yn groes i nodau cyffredinol y ddeddfwriaeth, gan gynnwys hyrwyddo a sefydlu addysgu CGM blwraliaethol:

*Dylai'r ddyletswydd i addysgu maes llafur CGM blwraliaethol fod yn berthnasol i bob ysgol, yn ddieithriad ar gyfer ysgolion sydd â chymeriad crefyddol. Mae'n anymarferol i ysgolion ffydd redeg dau faes llafur CGM ochr yn ochr: un amcan ac un sy'n unol ag egwyddorion yr ysgol ffydd. Gallai hyn fod yn ddryslyd i ddisgyblion a bydd yn creu rhaniad wrth addysgu CGM, a ddylai fod yn faes astudio cydlynol nad yw'n hyrwyddo unrhyw un grefydd neu safbwynt.*

Unigolyn

Teimlai ymatebwyr eraill oedd yn anghytuno fod y cynigion yn rhy rhagnodol ac y gallent danseilio annibyniaeth ysgolion ffydd o bosibl. O'r safbwyntiau hyn, dylai materion sy'n ymwneud â sicrhau dewis rhieni a diogelu ethos a ffocws yr ysgol fod o'r pwys mwyaf. Cafwyd gwrthwynebiadau pellach, ar sail ymarferol, y byddai'n anodd darparu gwahanol feysydd llafur yn ystod y diwrnod ysgol:

*Anghytuno'n gryf. Rwy'n addysgu mewn ysgol ffydd ac mae'r cwricwlwm crefyddol bron yn amhosibl ei reoli. Mae'n hurt disgwyl i ni ddarparu CGM ar BEN yr hyn sydd ar hyn o bryd yn gwricwlwm sydd wedi'i orlwytho'n llwyr. Yn ogystal, mae rhieni'n anfon eu plant i ysgolion ffydd OHERWYDD y ffydd. Ni ddylid disgwyl i CGM gael ei gyflwyno mewn ysgolion ffydd, ond dylai— os bernir bod angen — gael ei gyflwyno mewn*

*ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd. Credaf fod cyflwyno CGM mewn ysgolion ffydd yn syniad hurt ac yn gwbl annerbyniol.*

Athro

I ymatebwyr eraill roedd y cynigion yn ymwahanu'n sylweddol yn y ffordd y mae ysgolion â chymeriad crefyddol a heb gymeriad crefyddol yn cael eu trin o dan y cynigion. Yn ddi-os, roedd y safbwyntiau hyn yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu mynediad i gwricwlwm cyffredin ac ystod amrywiol o grefyddau a chredoau athronyddol ar draws cymunedau ac ysgolion:

*Rwy'n cytuno â'r cynnig y dylai ysgolion ffydd gwirfoddol a reolir, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, addysgu addysg grefyddol yn ôl y maes llafur cytunedig lleol. Fodd bynnag, rwy'n credu y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwersi CGM yn yr ysgolion hyn adlewyrchu'r rheini mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol. Mewn geiriau eraill, er mwyn sicrhau bod y nifer ehangaf posibl o blant yn cael CGM cynhwysol, ni ddylid caniatáu i rieni ofyn am fersiwn o'r pwnc sy'n seiliedig ar ffydd mwyach.*

Unigolyn

Roedd yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn tueddu i gynnig safbwyntiau tebyg, gan fynegi cefnogaeth i'r cynigion o ran pwysigrwydd cyflwyno cwricwlwm cyffredin ar draws ysgolion:

*Mae'r cyngor yn cydnabod y gall addysgu CGM fod yn fater sensitif. O'r herwydd, efallai y bydd rhai amgylchiadau lle y gellir ystyried ei bod yn rhesymol caniatáu addysgu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol, os bydd rhieni/gofalwyr yn gofyn amdano. Fodd bynnag, credwn hefyd ei bod yn bwysig cadw 'ehangder' i bob dysgwr, a hoffem ailadrodd ein cefnogaeth i ddull o ymdrin â'r pwnc sy'n caniatáu i bobl ifanc ddatblygu dealltwriaeth o ystod amrywiol o gredoau crefyddol ac anghrefyddol.*


Cyngor y Gweithlu Addysg

## 7 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr sydd â Chymeriad Crefyddol

### Cynigion Deddfwriaethol

Wrth weithredu eu cwricwlwm, y rhagosodiad ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, fel nawr, fydd i ddysgwyr gael CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol. Fodd bynnag, pan fydd rhiant yn gofyn am CGM yn unol â maes llafur cytunedig, rhaid ei ddarparu. O dan y cynigion, ni fydd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr unrhyw ddisgresiwn wrth benderfynu a ddylid derbyn y cais hwn ai peidio.

Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol addysgu'r maes llafur cytunedig pan fo rhiant/gofalwr yn gofyn amdano ac na ddylai fod y disgrisiwn ganddynt i wrthod gwneud hynny, roedd 66 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno, 27 y cant yn cytuno, a 7 y cant yn ansicr<sup>6</sup>:



Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno â'r cynigion yn cynnig amrywiaeth eang o safbwyntiau. Roedd y rhain yn cynnwys dau safbwynt gwahanol a oedd eu hunain yn ymdrin â'r cynigion o safleoedd gwahanol. Mae'r safbwyntiau hyn yn cynnwys y rhai a deimlai fod y cynigion yn gosod disgwyliadau beichus ar ysgolion ffydd, yn ogystal â'r rhai a deimlai fod y cynigion yn rhoi lle i ysgolion ffydd barhau i gynig darpariaeth enwadol. Yn fras, gellir nodweddu'r safbwyntiau fel y rhai sy'n teimlo bod y cynigion yn mynd yn rhy bell a'r rhai sy'n teimlo nad ydynt yn mynd yn ddigon pell i sicrhau darpariaeth blwraliaethol.

<sup>6</sup> Ymatebion i Gwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol addysgu'r maes llafur cytunedig pan fo rhiant/gofalwr yn gofyn amdano ac na ddylai fod y disgrisiwn ganddynt i wrthod gwneud hynny?

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno â'r cynigion ar y sail eu bod yn gosod disgwyliadau beichus ar ysgolion ffydd, tynnwyd sylw at yr heriau ymarferol o ddarparu cyfleoedd dysgu gwahaniaethol i blant rhieni wnaeth optio allan o ddarpariaeth enwadol:

*Mae hyn yn gwneud sefyllfa ysgolion yn amhosibl. Byddai hyn yn golygu, os yw un rhiant yn dymuno hynny, fod yn rhaid i'r ysgol gael dwy ddarpariaeth gyfochrog mewn CGM. Mae hwn yn faich ariannol a gweinyddol amhosibl. Mae'n anghyfartal. Os bydd rhieni'n dewis anfon plant i ysgol wirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol, maent wedi dewis hynny. Nid yw'n briodol iddynt wedyn amharu ar drefn yr ysgol honno drwy ddymuno 'optio allan' wedyn.*

Unigolyn

Yn sail i'r safbwyntiau hyn roedd y teimlad y gallai'r cynigion danseilio neu leihau darpariaeth enwadol. Yn ôl y safbwynt hwn, mynegodd rhai ymatebwyr eu pryderon yn angerddol, oedd yn awgrymu eu bod yn teimlo'n gryf am y mater:

*Mae'r ysgolion yn gwneud yr hyn maen nhw'n addo ei wneud. Os nad yw hyn yn gweddu i chi, dewiswch ysgol arall. Dylai canllawiau lleol sicrhau bod crefyddau eraill yn cael eu cwmpasu, ac mae hynny'n digwydd ym mhob ysgol GATHOLIG! Mae canllawiau statudol yn drysu pethau a gallai'r dyfnder gael ei gollu ar symboleiddiaeth er mwyn bodloni deddfwriaeth statudol. Mae'n ymddangos bod hyn yn wrthgynhyrchiol i nod y pedwar diben craidd.*

Unigolyn

Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno ar y sail nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod addysg CGM blwraliaethol yn cynnig nifer o wrthwynebiadau. Roedd y safbwyntiau hyn yn tueddu i fyfyrion ar bwysigrwydd a gwerth sicrhau darpariaeth CGM blwraliaethol i bob plentyn a pherson ifanc:

*Bydd y cynigion presennol sy'n ymwneud ag ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol yn golygu i bob pwrpas bod rhai plant a phobl ifanc yn cael eu tynnu'n ôl o wersi sydd wedi eu cynllunio i ddatblygu eu dealltwriaeth o grefyddau a safbwyntiau byd-eang eraill, neu nad ydynt yn cael y cyfle hwn o gwbl. Mae hyn yn golygu na fyddant o reidrwydd wedi hwyluso cyfleoedd i drafod a herio barn y gallant ddod ar eu traws mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol, ar-lein ac all-lein. Byddai hyn felly'n cyfyngu ar fynediad i'r cwricwlwm i rai ac nid yw er lles gorau plant a phobl ifanc...*

Comisiynydd Plant Cymru

Roedd gwrthwynebiad pellach yn ymwneud â'r canfyddiad bod y cynigion ynghylch ysgolion ffydd yn gwyro oddi wrth yr amcan o sicrhau addysgu CGM cyffredinol a phlwraliaethol ledled Cymru:

*Mae'r pryderon a fynegwyd [ynghylch y cyfleoedd i ysgolion barhau i addysgu CGM enwadol] hyd yn oed yn fwy perthnasol yma, gan mai'r rhagosodiad yn yr ysgolion [gwirfoddol a gynorthwyr] hyn fydd na fydd CGM plwraliaethol yn cael ei addysgu. Unwaith eto, dull gwell fyddai caniatáu addysg grefyddol enwadol yn ogystal (yn hytrach nag yn lle) â CGM mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.*

Academydd

Roedd maes allweddol arall o anghytundeb rhwng ymatebwyr yn canolbwyntio ar y cyfleoedd sydd ar gael i rieni a gofalwyr o ran cael mynediad i ysgolion naill ai â chymeriad crefyddol neu hebdo. Awgrymodd rhai ymatebwyr, oedd yn tueddu i anghytuno â'r cynigion, y gallai rhieni a gofalwyr sy'n dymuno cael mynediad i CGM plwraliaethol ddewis cael mynediad i ysgolion heb gymeriad crefyddol:

*Gall yr Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr barhau i addysgu am enwadau/crefyddau/credoau eraill. Gall rhieni ac ati gael mynediad i ysgolion eraill yn ardal yr awdurdod lleol os ydynt yn anghytuno â chymeriad crefyddol yr ysgol.*

Unigolyn

Yn groes i'r safbwynt hwn roedd y sylw nad oes gan gymunedau fynediad cyfartal bob amser i ysgolion â chymeriad crefyddol a'r rhai heb. Yn ôl y safbwyntiau hyn, roedd sicrhau CGM cyson a phlwraliaethol yn bwysig o ran sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu cytbwys ac eang:

*Mewn egwyddor, mae rhiant yn mynegi ei ddymuniad am fath penodol o addysg grefyddol drwy ei ddewis o ysgol... Fodd bynnag, mae sawl rheswm pam nad yw hyn yn syml:*

- Yn gyntaf, ceir prosesau derbyn sy'n golygu na ellir gwarantu lle i rieni yn eu hysgol ddewisol ar gyfer eu plentyn.*
- Yn ail, mewn sawl rhan o Gymru, gall yr ysgol agosaf o'u henwad dewisol, neu heb gymeriad crefyddol, fod yn rhy bell i fod yn opsiwn realistig. Er enghraifft, dim ond mewn pedwar awdurdod lleol mae darpariaeth cyfnod uwchradd yr Eglwys yng Nghymru ar gael a dim ond mewn 12 awdurdod lleol mae darpariaeth Gatholig ar gael.*
- Yn drydydd, mae'r holl ysgolion yng Nghymru sydd â darpariaeth uwchradd sy'n addysgu addysg grefyddol enwadol yn rhai Saesneg, sy'n ei gwneud yn amhosibl dewis addysg Gymraeg yn y cyfnod uwchradd sy'n cynnwys addysgu addysg grefyddol enwadol.*

*Gallai Llywodraeth Cymru ystyried annhegwch y mathau presennol o ysgolion sydd ar gael ac a ddylai rhieni felly gael yr hawl i ofyn am fath penodol o CGM. Er y byddai'r annhegwch hwn fel pe bai'n cyflwyno achos cryf dros gael hawl o'r fath gan rieni, mae gwrthddadl cryf na fyddai'n ymarferol i ysgolion wneud darpariaethau CGM gwahanol ar gyfer gwahanol ddisgyblion, oherwydd yr adnoddau ychwanegol sylweddol y byddai*

*eu hangen ar gyfer hyn. Yn gyffredinol, byddem o blaid system sy'n diogelu uniondeb CGM fel addysg briodol, blwraliaethol, orfodol o werth i bob disgybl, waeth beth fo barn grefyddol neu athronyddol eu rhieni.*

Estyn, Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant

Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn cytuno â'r cynigion yn tueddu i awgrymu ei bod yn bwysig sicrhau dewis os nad yw rhieni, gofawyr neu bobl ifanc yn rhannu credoau'r ysgol dan sylw:

*Rwy'n cytuno â'r cynnig hwn gan fod llawer o ddisgyblion anghrefyddol yn mynychu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac efallai y byddan nhw a'u teuluoedd eisiau iddynt ddysgu am fwy na ffydd yr ysgol (a fydd eisoes yn cael ei bwysleisio'n drwm mewn rhannau eraill o fywyd yr ysgol fel addoli ar y cyd).*

Unigolyn



## 8 Goblygiadau ar gyfer y Gymraeg

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ar oblygiadau'r cynigion ar gyfer y Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys effaith y cynigion ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar gyfer trin y Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni wnaeth cyfran sylweddol o ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn, ac o'r rhai a ymatebodd, teimlai llawer na allent roi sylwadau ar effaith y cynigion ar y Gymraeg. O'r ymatebwyr hynny a gynigiodd fyfyrddodau, ar y cyfan, teimlai llawer na fyddent yn cael unrhyw effaith ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys mewn ysgolion.

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cynigion o fudd i'r Gymraeg. Yn ôl y safbwyntiau hyn, gallai cyflwyno archwiliad plwraliaethol a chytbwys o wahaniaeth, gan gynnwys credoau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol, wneud plant a phobl ifanc yn fwy agored a goddefgar. Gallai hyn yn y pen draw gynyddu ymgysylltiad â'r iaith a diwylliant Cymraeg a dysgu amdanynt, roedd llawer yn credu eu bod yn bwysig i gynnal y Gymraeg ac ar gyfer cydlyniant cymunedol. Er mwyn cyflawni hyn, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cyfathrebu cyson a democrataidd rhwng ysgolion, athrawon a Llywodraeth Cymru. Cyn belled â bod hyn yn cael ei gynnal, credid y bydd y polisiau'n gadarnhaol i'r Gymraeg.

Teimlai ymatebwyr eraill, fodd bynnag, y gallai'r cynigion danseilio'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg. Tynnodd yr ymatebwyr hyn sylw at amrywiaeth o faterion gan gynnwys pwysigrwydd datblygu adnoddau Cymraeg amserol o ansawdd uchel i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol. Yn y cyfamser, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch llwyth gwaith athrawon a'r rhwystr posibl y mae'n ei gyflwyno wrth ymateb ac addasu i gynigion, yn enwedig mewn ysgolion Cymraeg.

Yn gysylltiedig â llwyth gwaith roedd y buddsoddiad a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygu adnoddau Cymraeg newydd. Nododd rhai ymatebwyr y byddai angen cyllideb ar gyfer hyn mewn ysgolion, tra nododd eraill na fyddai'n bosibl eu cynhyrchu oni bai bod buddsoddi'n digwydd. Heb gyllid, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai'r angen i gynhyrchu adnoddau newydd neu ddefnyddio amser ychwanegol athrawon yn tynnu adnoddau oddi wrth bynciau eraill. Yn ôl y safbwyntiau hyn, byddai angen sicrhau bod ystod o adnoddau ar gael i ysgolion er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Roedd pryderon mwy ymylol yn canolbwyntio ar yr erydiad ymddangosiadol o werthoedd, diwylliant a threftadaeth Gristnogol yng nghymdeithas Cymru. Yn ôl y safbwyntiau hyn, mae'r cynigion yn tanseilio'r gwerthoedd hyn a gallai hyn effeithio'n negyddol yn y pen draw ar ymgysylltu â'r iaith a'r diwylliant. I'r gwrthwyneb, tynnodd nifer fechan o ymatebwyr sylw at bryderon ehangach ynghylch natur orfodol rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg. Yn ôl y safbwyntiau hyn, ystyrir nad yw dysgu Cymraeg yn cynnig llawer o berthnasedd ymarferol i rai plant a phobl ifanc ac yn tynnu amser a sylw oddi wrth bynciau eraill.

Ar y cyfan, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n cynnig barn neu'n teimlo na fyddai'r cynigion yn cael fawr o effaith ar y defnydd o'r Gymraeg.

## 9 Casgliadau

Ar y cyfan, roedd y prif bryder ynghylch y cynigion yn canolbwyntio ar y graddau y gallai ysgolion ddehongli ac addasu i'r cwricwlwm CGM, yn ogystal ag i ba raddau mae'r diwygiadau'n gwneud hyn yn bosibl.

I rai ymatebwyr, mae dehongli lleol yn bwysig oherwydd byddai hyn yn galluogi CGM i adlewyrchu dymuniadau teuluoedd, ysgolion a chymunedau, gan gynnwys y rhai â chredoau crefyddol. Roedd y safbwyntiau hyn yn tueddu i anghytuno â'r cynigion lle roeddent yn teimlo eu bod yn cyfyngu ar allu ysgolion i gynnig darpariaeth CGM enwadol, yn enwedig ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

Teimlai ymatebwyr eraill fod dehongli lleol yn broblematig ac y dylai plant a phobl ifanc gael addysgu CGM cyson, plwraliaethol ledled Cymru. Roedd y safbwyntiau hyn yn tueddu i anghytuno â'r cynigion lle roeddent yn teimlo eu bod yn rhoi gormod o ddisgresiwn i ysgolion a chymunedau wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, yn enwedig ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

Roedd consensws cyffredinol ar hyd a lled yr ymatebion o ran egwyddor a phwysigrwydd plwraliaeth mewn addysgu CGM. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys ymatebwyr o ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, yn teimlo bod hyn eisoes wedi bod yn digwydd a'i fod eisoes wedi ei ymgorffori mewn addysgu a dysgu Addysg Grefyddol. Er bod gwrthwynebiadau gan rai ymatebwyr ynghylch union ddiffiniad a chynnwys credoau athronyddol o fewn CGM, nid oedd pwysigrwydd a'r syniad o ddarpariaeth gytbwys oedd yn archwilio nifer o grefyddau yn ddadleuol i'r mwyafrif helaeth o ymatebwyr.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cyflwyno barn a safbwyntiau'r rhai a roddodd o'u hamser yn garedig i ystyried y materion a mynegi eu barn drwy'r ymgynghoriad. O hyn, ni allwn benderfynu i ba raddau mae'r materion a'r pryderon a nodwyd yn cael eu teimlo'n ehangach ar draws cymunedau yng Nghymru. Gyda'i gilydd, dylid dehongli'r dadansoddiad hwn i gynnig yr ystod o safbwyntiau sydd gan ymatebwyr yn unig, ac nid pa mor gyffredin yw barn y gymuned gyfan.

# Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol (yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) fel y disgrifir yn y ddogfen ymgynghori?**

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau atodol (hyd at 250 gair)

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno y dylai cynadleddau maes llafur cytunedig roi sylw i ganllawiau statudol wrth ddatblygu eu maes llafur cytunedig lleol?**

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau atodol (hyd at 250 gair)

**Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ei bod yn ofynnol i ysgolion cymunedol a sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol roi sylw i faes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu CGM?**

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau atodol (hyd at 250 gair)

**Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig na ddylai rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol allu gofyn am ddarpariaeth CGM yn unol ag egwyddorion ffydd benodol mwyach?**

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau atodol (hyd at 250 gair)

**Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y gall ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol addysgu CGM yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ffydd yr ysgol os gofynnir iddynt gan rieni/gofalwyr?**

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau atodol (hyd at 250 gair)

**Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol addysgu'r maes llafur cytunedig pan fo rhiant/gofalwr yn gofyn amdano ac na ddylai fod y disgrisiwn ganddynt i wrthod gwneud hynny?**

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau atodol (hyd at 250 gair)

**Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg, yn benodol ar:**

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau fyddai, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Sylwadau atodol

**Cwestiwn 8 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru er mwyn creu:**

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Sylwadau atodol

**Cwestiwn 9 – Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar gael i'r cyhoedd, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os fyddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddi-enw, ticiwch yma:



This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
© Hawlfraint y Goron 2020  
WG41440  
ISBN 978 1 80082 274 0